# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

# DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| B.W. Jones | J.K. Howell | D. Owen | M. Palfreman |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| W.R.A. Davies | T. Davies | H.L. Davies | H.B. Shepardson |
| R. Sparks | M. Thomas | M.J.A. Lewis | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd Linda Evans - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi
Y Cynghorydd H.A.L. Evans – Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth
Y Cynghorydd A. Lenny - Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
R. Parkinson, Arweinydd Tim - Cyngor ynghylch Tai
G. Williams, Arweinydd Tim Safonau Tai
S. Williams, Uwch-gyfrifydd
G. Dennis, Uwch Ymgynhorydd Dewisiadau Tai
N. Hartley, Syrfëwr y Bartneriaeth Arloesedd Arbenigwr Ynni
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr – Neuadd y Sir, Caerfyrrdin SA31 1JP ac o Bell - 2.00 - 3.20 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Davies a R. Evans.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| R. Sparks | 7 - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 2023/24 (01/04/23 - 30/09/23) - sy'n berthnasol i'r maes craffu hwn | Mae ganddo fusnes nofio a gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar hamdden ond nid pleidleisio |

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. CYFRIF REFENIW TAI A PHENNU RHENTI TAI 2024/25

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2024/25 a gyflwynir fel rhan o broses ymgynghori'r gyllideb a ddygai ynghyd y cynigion diweddaraf ar gyfer y cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn iddynt benderfynu yn eu cylch.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi cael ei baratoi gan adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer darparu a chynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) ar gyfer y dyfodol. Roedd y buddsoddiad arfaethedig a geir yn y cynllun busnes presennol wedi cyflawni STSG erbyn 2015 (i'r cartrefi hynny lle'r oedd tenantiaid wedi cytuno i gael y gwaith), wedi darparu buddsoddiad i gynnal STSG+ ac wedi parhau â'r buddsoddiad yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai.

Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar sut y byddai rhenti'n cynyddu ar gyfer 2024/25 gyda chyllideb y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei gosod i adlewyrchu'r canlynol:-

- Y Polisi Rhenti Tai Cymdeithasol (a bennir gan Lywodraeth Cymru)
- Cynigion yng Nghynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai Sir Gaerfyrddin
- Cynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai

O ran pennu Rhenti Tai, atgoffwyd y Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Polisi Rhent Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2015 am gyfnod o bedair blynedd hyd at 2018/19, a roddodd gysondeb dros y cyfnod hwnnw. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu polisi interim ar gyfer 2019/20 wrth iddi aros am ganlyniadau'r Adolygiad o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy.Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cadw'r polisi am gyfnod pellach o 5 mlynedd o 2020/21 gyda rhai gofynion ychwanegol/diwygiedig, fel y nodir yn yr adroddiad.

Roedd y polisi hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol gynyddu cyfanswm y rhent gan y CPI +1% ar gyfer pob un o'r pum mlynedd o 2020/21 i 2024/25. Roedd hefyd yn caniatáu i lefel y rhent ar gyfer tenantiaid unigol godi hyd at £2

ychwanegol ar ben CPI+1% ar gyfer cysoni rhenti, ar yr amod na fyddai cyfanswm yr incwm rhent a gasglwyd gan y landlord cymdeithasol yn cynyddu mwy na CPI+1%.

Fodd bynnag, os bydd CPI y tu allan i'r ystod o 0% i 3%, mae'r polisi'n darparu i'r Gweinidog â chyfrifoldeb am Dai benderfynu ar y newid priodol i lefelau rhent i'w gymhwyso ar gyfer y flwyddyn honno yn unig. Gan fod CPI yn 6.7% ym mis Medi 2023, roedd y cymal hwnnw wedi'i actifadu eleni ac roedd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Newid yn yr Hinsawdd wedi dweud na ddylai'r cynnydd mwyaf yn yr amlen rent ar gyfer unrhyw awdurdod lleol fod yn fwy na 6.7%.

O ystyried yr uchod, roedd yr adroddiad yn argymell cynnydd rhent tai cyfartalog o 6.5% (£6.47) fesul preswylfa yr wythnos. Pe bai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnydd hwnnw, byddai'n arwain at warged o £293m ar y Cyfrif Refeniw Tai. Fodd bynnag, cynlluniwyd ar gyfer hynny yn y cynllun tymor hir, gan adael balans o £12.6m ar ddiwedd 2024/25. Dywedwyd hefyd, fel y manylwyd yn Atodiad A, fod angen balansau i gefnogi'r strategaeth bresennol o ariannu gwariant cyfalaf a pharhau i wneud y cynllun busnes yn fforddiadwy dros gyfnod o 30 mlynedd.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at yr effaith bosibl y gallai'r cynnydd arfaethedig ei chael ar rai tenantiaid yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod hwn wedi'i sefydlu fel rhan o baratoadau'r gyllideb. Ar hyn o bryd roedd 34% o denantiaid yn derbyn Credyd Cynhwysol, 24% yn derbyn budd-dâl tai llawn, 15% budd-dâl tai rhannol a 27% ddim yn derbyn unrhyw fudd-daliadau. Cydnabuwyd hefyd y byddai lefel y budd-daliadau yn cynyddu ym mis Ebrill 2024 ond nad oedd Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi lefel y cynnydd eto. Fodd bynnag, roedd hynny fel arfer yn cynyddu yn ôl cyfradd y CPI yn y mis Medi blaenorol a oedd wedi aros ar 6.7%.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gan y Cyngor brosesau a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo tenantiaid oedd yn wynebu anawsterau ariannol, o ystod o wahanol grantiau i'w helpu i gael gafael ar y budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt ond nad oeddent yn eu hawlio. Yn hynny o beth, roedd tîm cyn-llety'r adran dai wedi cynorthwyo dros 1,000 o denantiaid i gael mynediad i dros £800k o fudd-daliadau. Pwysleisiwyd fodd bynnag fod gan y Cyngor bolisi peidio â throi allan o ran tenantiaid nad oeddent yn gallu talu eu rhent. Byddai'r adran hefyd yn cyflogi rheolwyr ystâd a fyddai'n gallu rhoi cymorth a chefnogaeth i denantiaid. Yn bwysicaf oll, pe bai tenantiaid yn wynebu anawsterau ariannol, dylent gysylltu â'r adran yn gynnar i gael yr help a'r cyngor oedd ar gael iddynt.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CABINET/CYNGOR:**

**5.1 bod y rhent tai cyfartalog yn cael ei gynyddu 6.5% (£6.47) ar gyfer pob preswylfa yr wythnos yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru h.y.:**

- **Bydd cynnydd o 6.39% yn digwydd i renti eiddo sydd ar y rhenti targed**
- **Bydd eiddo lle mae'r rhent yn is na'r rhenti targed yn cynyddu gan 6.39% yn ogystal â'r cynnydd mwyaf posibl o £1.00**
- **Bod y rhenti hynny sy'n uwch na'r targed yn cael eu rhewi hyd nes eu bod yn unol â'r targed.**

**Gan arwain felly at Gynllun Busnes cynaliadwy, cynnal STSG+, a darparu adnoddau ar gyfer y Cynllun Cyflawni Adfywio a Datblygu Tai, ac roedd yn cael ei gynnal gan y Tîm Strategol Adfywio a Thai;**

**5.2 Cynyddu rhenti garejis 6.5% o £9.00 i £9.60 a sylfeini garejis o £2.25 i £2.40;**
**5.3 Rhoi'r Polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid sy'n cael gwasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;**
**5.4 Cynyddu'r taliadau am ddefnyddio gwaith trin carthffosiaeth y Cyngor, yn unol â'r cynnydd mewn rhenti;**
**5.5 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai am 2024/27 (cyllidebau dangosol oedd rhai 2025/26 a 2026/27), fel y nodwyd yn Atodiad A;**
**5.6 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllido perthnasol ar gyfer 2024/25, a'r gwariant mynegiannol a bennwyd ar gyfer 2025/26 hyd 2026/27, fel y'u nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad.**

## 5. CYNLLLUN BUSNES 2024-27 Y CYFRIF REFENIW TAI RHAGLEN BUDDSODDIADAU TAI SIR GAERFYRDDIN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Gynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024-27 Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin, a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod y Cyngor yn cefnogi ei denantiaid a'i breswylwyr ym mhopeth y mae'n ei wneud, gan nodi'r pum thema allweddol ganlynol fel rhai sy'n gyrru'r busnes am y tair blynedd nesaf:-

- Thema 1 – Ein Cynnig Rheoli Ystadau a Thenantiaethau.
- Thema 2 – Buddsoddi mewn Cartrefi.
- Thema 3 - Hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy a datgarboneiddio ein stoc dai.
- Thema 4 - Darparu rhagor o dai.
- Thema 5 - Yr Economi Leol, Budd i'r Gymuned a Chaffael

Cefnogwyd y pum thema hynny gan y camau canlynol:

- Cyflwyno "cynnig" rheoli ystadau a thenantiaethau newydd a fydd yn sicrhau bod swyddogion tai yn fwy gweladwy a hygyrch ar ein hystadau. Bydd y "cynnig" hwn yn cydbwyso cefnogaeth i'n tenantiaid gyda

gweithgareddau gorfodi lle mae'n briodol gwneud hynny. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd â gweithredu cynllun peilot "tasgmon" newydd ar ystadau blaenoriaeth yng Nghaerfyrddin, Rhydaman, Llanelli ac ardaloedd gwledig.

- Parhau i gadw nifer yr eiddo gwag ar lefel isel a lleihau'r ôl-groniad presennol o waith atgyweirio o ddydd i ddydd. Rydym yn bwriadu cynyddu ein darpariaeth fewnol o ran gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd ac ail-gydbwyso'r rhaniad presennol rhwng contractwyr mewnol ac allanol.
- Parhau i fuddsoddi i sicrhau bod cartrefi yn rhatach i'w rhedeg ar gyfer ein tenantiaid, ac yn ogystal â gosod paneli solar wrth i ni osod toeau newydd, byddwn yn datblygu achos busnes ar gyfer cyflwyno rhaglen ehangach o baneli solar ar doeau ar ystadau.
- Oherwydd y galw sylweddol am gartrefi sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd, byddwn yn mynd ati i brynu rhagor o dir. Bydd hyn yn cynnwys safleoedd mwy o faint a ddefnyddir ar gyfer tai Cyngor yn unig. Bydd hyn yn cynyddu cyflymder a graddfa ein rhaglen ddatblygu;
- Buddsoddi pellach mewn tai o fath arbenigol (e.e. anabledd dysgu, tai â chymorth i bobl hŷn a phobl ifanc) i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf priodol. Bydd hyn yn cynnwys llety llai, mwy gwasgaredig mewn gwahanol wardiau. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn sicrhau symud i ffwrdd o leoliadau drud ac amhriodol y tu allan i'r sir ar gyfer rhai grwpiau o gleientiaid; a
- Caffael fframwaith mân waith newydd ar gyfer gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd a phrosiectau gwella ehangach i sicrhau ymateb cyflymach ac i gefnogi contractwyr lleol llai ledled y Sir.

Nododd y Pwyllgor fod incwm gafwyd drwy renti tenantiaid a ffynonellau cyllid eraill yn galluogi llunio rhaglen buddsoddiadau gwerth mwy na £277m (Cyfalaf - £113m a Refeniw - £164m) i gynnal gwasanaethau dros gyfnod y cynllun. I gynnal y lefel honno o fuddsoddiad, drwy gynllunio ariannol gofalus, lefel y cynnydd rhent rhagamcanol ar gyfer 2024/25 oedd 6.5%, a oedd yn is na chyfradd chwyddiant mis Medi o 6.7% a'r cynnydd rhent uchaf a bennir gan y Gweinidog Tai ar gyfer 2024/25. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys £330k o arbedion effeithlonrwydd refeniw dros y tair blynedd nesaf ynghyd â chais i Lywodraeth Cymru am grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £6.2m.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd yn ymwneud â'r ôl-groniad atgyweiriadau a thai gwag, cafodd y Pwyllgor ei hysbysu o'r mesurau amrywiol a oedd yn cael eu cymryd gan yr adran i leihau'r materion hynny. Roedd y rheiny'n cynnwys cynyddu'r gweithlu o fewn y tîm mewnol ac ailosod y Fframwaith Gwaith Eiddo er mwyn galluogi contractwyr lleol llai i wneud cais i gael eu cynnwys yn y fframwaith a gwneud gwaith atgyweirio. Ar hyn o bryd o ranlefelau'r tai gwag, roeddent wedi gostwng i 187, sy'n cynrychioli 2% o'r stoc dai, gyda 100 o'r rheini wedi'u neilltuo i gontractwyr.
- Croesawyd y cynnig i benodi rheolwyr ystadau a dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai pob rheolwr yn gyfrifol am oddeutu 500 o gartrefi.
- Croesawyd y cynllun peilot 'tasgmon', a chafodd y Pwyllgor wybod am ei nodau a'i ddyheadau i gadw ystadau'n daclus ac mewn cyflwr da a fydd,

gobeithio, yn helpu i annog tenantiaid i ymfalchïo yn eu hystâd ac, yn ei dro, arwain at wella cyflwr y stoc dai dros amser.

- O ran y £616k o gyllid a dderbyniwyd gan gronfa Bargen Ddinesig Bae Abertawe – Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, cadarnhawyd bod £300k o hynny wedi'i ddyrannu i ategu rhaglen adeiladu newydd y Cyngor gan gynnwys gosod pympiau gwres o'r awyr, paneli ffotofoltäig solar a'r batris sydd eu hangen i storio'r pŵer a gynhyrchir.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CABINET/CYNGOR:-**

**5.1** **Cadarnhau gweledigaeth y Rhaglen Buddsoddiadau Tai dros y tair blynedd nesaf;**

**5.2** **Cytuno y gellir cyflwyno Cynllun Busnes 2024/25 i Lywodraeth Cymru**

**5.3** **Nodi'r cynnig newydd o ran rheoli ystadau a thenantiaethau a fydd yn sicrhau bod ein swyddogion tai yn fwy gweladwy a hygyrch, gan gydbwyso'r cymorth sydd ei angen ar denantiaid a'r angen i gymryd camau gorfodi pan fo angen;**

**5.4** **Cytuno i weithredu cynllun peilot "tasgmon" newydd ar ystadau sydd â blaenoriaeth.**

**5.5** **Nodi ein hymrwymiad i gadw nifer yr eiddo gwag mor isel â phosibl.**

**5.6** **Cadarnhau ein hymrwymiad i leihau nifer yr atgyweiriadau o ddydd i ddydd sydd yn aros i'w gwneud trwy ailgydbwyso'r rhaniad rhwng contractwyr mewnol ac allanol, a datblygu fframwaith gwaith bach newydd.**

**5.7** **Cadarnhau ein blaenoriaeth i brynu tir ychwanegol a datblygu safleoedd mawr ar gyfer tai Cyngor yn unig a nodi'r cyfraniad y mae'r cynllun hwn yn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.**

**5.8** **Nodi ein hymrwymiad i wneud ein holl dai yn fwy effeithlon o ran ynni i denantiaid, gan sicrhau sgôr perfformiad ynni Band C o leiaf, gosod paneli solar ar doeau fel rhan o'n rhaglen gosod toeau newydd, a datblygu achos busnes dros osod ar raddfa fwy helaeth baneli solar ar gartrefi tenantiaid a chefnogi egwyddorion carbon sero net y Cyngor.**

**5.9** **Cadarnhau ein hymrwymiad i barhau i gynyddu'r cyflenwad o dai arbenigol yn y sir.**

**5.10** **Nodi pwysigrwydd y buddsoddiad sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn a'i rôl o ran ysgogi'r economi leol a chreu swyddi a chyfleoedd hyfforddi lleol.**

## 6. ADRODDIAD DIWEDDARU - DYRANNU TAI CYMDEITHASOL BRYS YNGHYLCH RHOI'R POLISI DYRANNU NEWYDD AR WAITH (MONITRO)

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023, cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ar effeithiolrwydd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys newydd a luniwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y cyfnod blaenorol yn ymwneud â'r canlynol:

1. Cyfran yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol a'r rhai a hysbysebwyd,
2. Bandiau'r cleientiaid a barwyd yn uniongyrchol,
3. Nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol ac a hysbysebwyd gan bob ardal gymunedol, math o eiddo a landlord,
4. Cyfran yr achosion o baru uniongyrchol a oedd yn llwyddiannus,
5. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle gofynnodd y cleient am adolygiad o'r dyraniad, a chanlyniad yr adolygiadau hynny,
6. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle gwrthododd y cleientiaid y dyraniad ond heb ofyn am adolygiad.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cadarnhawyd, wrth i'r Cyngor symud o'r polisi dyraniadau brys i bolisi newydd ffurfiol, y byddai'r wybodaeth ansoddol a'r profiad enillwyd o'r polisi brys yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i lywio'r polisi newydd hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad monitro.**

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 2 - 2023/24 (01/04/23 - 30/09/23) YN BRIODOL I'R PWYLLGOR CRAFFU HWN

(NODER: Roedd y Cynghorydd R. Sparks wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried)

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 2023/24 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023 mewn perthynas â'r meysydd sy'n dod o fewn ei gylch gwaith yn manylu ar y cynnydd a wnaed ynghylch y camau gweithredu a'r mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol ac ynghylch cyflawni'r Amcanion Llesiant.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:
- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ar ddichonoldeb fformat yr adroddiad yn cael ei ddiwygio i fformat adrannol â thema er mwyn hwyluso'n haws y gwaith o graffu ar berfformiad, nodwyd y byddai'r mater yn cael ei godi gydag Adran Rheoli Perfformiad y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a nodai'r hyn a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 26 Ionawr 2024.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 26 Ionawr 2024**.

## 10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 15 TACHWEDD 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023 yn gywir**.

**CHAIR** **DATE**